# Galw'r Cynulliad yn ôl - 19.12.12

04/02/13

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 23 Ionawr, pan wnaethoch ofyn,

*Rhowch fanylion am y gost ariannol o alw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ôl ar 19.12.12, gan gynnwys costau teithio a hawliadau am aros dros nos?*

Caiff unrhyw dreuliau a ysgwyddwyd ac a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys y rheini'n ymwneud â chostau teithio a hawliadau am aros dros nos, eu cyhoeddi ar y System Cyhoeddi Lwfansau (sydd ar gael yma: http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2.htm).

Gellir rhannu'r wybodaeth hon fesul Aelod Cynulliad a/neu fesul mis neu flwyddyn yr ysgwyddwyd y treuliau, a gellir hidlo'r canlyniadau ymhellach yn erbyn y math o lwfans neu dreuliau. Mae angen i hawliadau am dreuliau gael eu cyflwyno o fewn tri mis o'u hysgwyddo a chaiff hawliadau o'r fath eu cyhoeddi'n awtomatig ar ddydd Gwener gwaith olaf bob mis, dri mis wedyn. Caiff unrhyw hawliadau sy'n ymwneud â'r cyfarfod llawn ar 19 Rhagfyr 2012 eu cyhoeddi ar ddiwedd mis Mawrth 2013.

Fel y soniwyd uchod, caiff hawliadau eu rhannu fesul mis yn hytrach na fesul dyddiadau unigol, a gan fod eich cais yn ymwneud ag un dyddiad penodol, bydd angen i mi ymchwilio ymhellach i'r wybodaeth, pan fydd ar gael, fel y gallaf roi'r wybodaeth benodol y gwnaethoch ofyn amdani i chi. Felly, ar ôl ffeilio, crynhoi a chyhoeddi'r holl hawliadau ar gyfer y cyfnod perthnasol, byddaf yn ysgrifennu atoch eto gyda chyfanswm yr hawliadau o'r fath.

Ni ysgwyddodd Comisiwn y Cynulliad unrhyw gostau ychwanegol eraill o ganlyniad i alw'r Cynulliad yn ôl ar 19 Rhagfyr 2012.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**